Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Ponthenri**
**Heol Y Pentre**
**Ponthenri**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA15 5NS**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Ponthenri

Lleolir Ysgol Ponthenri ym mhentref Ponthenri, ger Llanelli, Sir Gaerfyrddin.  Mae 70 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr.  Addysgir y disgyblion mewn tri dosbarth oed cymysg.

Dros dreigl tair blynedd, mae 22% o'r disgyblion yn  gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 21%.  Daw 35% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir Cymraeg fel iaith yr aelwyd.  Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.  Mae bron pob disgybl o gefndir gwyn Prydeinig.

Mae gan tua 19% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn gyfartal â'r ganran genedlaethol.  Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Medi, 2012.  Ers 2012, daeth yr ysgol yn rhan o ffederasiwn ffurfiol gydag Ysgolion Gynradd Carwe ac Ysgol Gynradd Gwynfryn o dan un pennaeth gweithredol ac un corff llywodraethol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Ponthenri yn ysgol hapus a gweithgar sydd â naws deuluol iddi.  Mae ymddygiad y disgyblion yn dda iawn.  Mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o'u mannau cychwyn.

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm diddorol ac ysgogol ac mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau heriol i bob disgybl .  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel, ac maent yn cefnogi ac arwain eraill yn effeithiol i godi safonau a hybu lles disgyblion.  Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda â'r ddwy ysgol arall o fewn y ffederasiwn.  Mae'r staff a'r disgyblion yn elwa'n fawr o'r trefniadau rheolaethol cyson ar draws y ffederasiwn.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ysgrifennu'n annibynnol ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod gweithdrefnau gwella ansawdd yn fwy effeithiol wrth wella ddeilliannau disgyblion a chryfhau'r ddarpariaeth

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yno, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn, gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol.

Mae bron pob disgybl yn datblygu eu medrau llafar a gwrando effeithiol. O oed cynnar, maent yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn bwrpasol ar oedolion ac ar ei gilydd. Wrth iddynt symud drwy'r cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn trafod ac esbonio'u gwaith yn hyderus wrth weithio gyda'u cyfoedion. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'u medrau llafaredd yn gadarn yn Saesneg ac yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio geirfa goeth, sy'n berthnasol i'r pwnc, yn effeithiol, er enghraifft wrth adeiladu draig yn yr ardal allanol. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio idiomau a chymariaethau perthnasol wrth drafod yn y dosbarth.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn caffael medrau darllen cynnar yn gadarn wrth ddilyn a thrafod stori. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu ymwybyddiaeth ffonolegol gadarn ac yn defnyddio'r wybodaeth yn llwyddiannus i adeiladu geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r mwyafrif yn darllen yn unol â'u hoed a'u gallu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn addas, gan ddangos ymwybyddiaeth dda o atalnodi. Maent yn trafod cynnwys eu llyfrau yn aeddfed yn y ddwy iaith, gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol neu hoff gymeriadau. Gall lawer o ddisgyblion hŷn ddefnyddio geiriaduron yn effeithiol i chwilio am ystyr geiriau a chywain gwybodaeth yn hyderus mewn cyfeirlyfrau.

Mae medrau ysgrifennu bron pob disgybl yn datblygu'n dda o'r cychwyn. Mae rhan fwyaf y disgyblion meithrin yn dechrau gwneud marciau addas i gyd-fynd â thema'r dosbarth, er enghraifft wrth ddisgrifio cestyll. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu cyfres o frawddegau cyffrous yn gywir, er enghraifft i fynegi barn am archarwr yn cynorthwyo'r heddlu. Mae'r mwyafrif yn defnyddio geirfa aeddfed mewn brawddegau estynedig. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n dda ar eu medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o nodweddion nifer o ffurfiau ysgrifennu, ac maent yn defnyddio eu gwybodaeth i ysgrifennu ar draws y cwricwlwm gyda chymorth fframweithiau ysgrifennu, ond nid yn annibynnol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu gyda chystrawen gywir bob tro yn y Gymraeg. Mae'r disgyblion hŷn yn dewis geirfa ddiddorol ac yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o'r gynulleidfa, er enghraifft wrth ddwyn perswâd ar y darllenydd i ymweld â sioe gerdd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhif. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, arian, amser a thrin data. Mae llawer yn datrys problemau mathemategol yn llwyddiannus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Er enghraifft, yng nghyfnod allweddol 2, maent yn defnyddio eu dealltwriaeth o siapiau 2D i ddatrys tasgau heriol, fel cyfrifo perimedr ac arwynebedd siapau cyfansawdd cymhleth. Mae gan y mwyafrif ddealltwriaeth gadarn o werth lle, a gallant ddefnyddio data yn gynyddol gywir a'i gyflwyno mewn amrywiol ffurfiau. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion

hŷn yn defnyddio graffiau gwahanol i gyfleu gwybodaeth ar draws y cwricwlwm, fel graff llinell ddwbl mewn gwyddoniaeth i ddangos cwymp tymheredd dŵr.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn cymhwyso ystod o fedrau'n gadarn ar draws y cwricwlwm.  Enghraifft dda o hyn yw'r dasg ysgol gyfan i gynllunio gwisgoedd allan o ddeunyddiau ailgylchu.  Mae'r disgyblion i gyd yn defnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a chreadigol i greu gwisgoedd a phosteri i hysbysebu'r sioe ffasiwn sy'n dilyn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn llwyddiannus mewn gweithgareddau iaith, trin data ac wrth ddatrys problemau.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn cyflwyno gwybodaeth yn llwyddiannus, chwilio am wybodaeth o'r we a chreu animeiddiadau yn seiliedig ar waith arlunydd o Gymru gan gyfuno sain emynau at y delweddau yn effeithiol.  Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn creu a chwestiynu cronfeydd data, defnyddio fformiwla mewn taenlen a chreu cyflwyniadau amlgyfrwng yn bwrpasol.  Drwy hyn, maent yn datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau yn llwyddiannus.

**Lles ac agweddau at ddysgu:  Da**

Mae bron pob un disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol.  Maent yn ymwybodol eu bod yn rhan o gymuned ble mae pawb yn gofalu am ei gilydd.  O ganlyniad, mae ymddygiad bron pob disgybl yn dda iawn.  Mae'r disgyblion yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol ac maent yn hyderus i drafod unrhyw ofidiau gydag aelodau staff.  Maent yn defnyddio system electronig yn bwrpasol i fynegi eu teimladau yn gyson.  Mae'r staff yn craffu arno'n ddyddiol ac, o ganlyniad, mae'r disgyblion yn ymwybodol y caiff unrhyw bryderon sylw teilwng.  Mae rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar lein.  Er enghraifft, mae disgyblion yn creu posteri ar y thema hon ac yn eu cyflwyno mewn gwasanaethau torfol.

Mae disgyblion yn cadw ar dasg ac yn ymdrechu'n ddiwyd yn eu gwaith.  Mae agwedd gadarnhaol ganddynt tuag at ddysgu.  Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau am gyfnodau estynedig ac yn cwblhau gwaith yn frwdfrydig ac yn llwyddiannus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gweithio'n hyderus ac effeithiol  mewn parau, mewn grwpiau bychain, yn annibynnol ac fel rhan o ddosbarthiadau cyfan.  Maent yn cefnogi dysgu ei gilydd yn dda ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol.  Maent yn dangos parch tuag at ei gilydd, eu hathrawon ac at ymwelwyr, er enghraifft trwy gymryd eu tro a chaniatáu i bobl eraill siarad.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn hyrwyddo agweddau da tuag at yfed a bwyta'n iachus yn llwyddiannus.  Er enghraifft, maent yn annog y disgyblion i yfed dŵr amser cinio yn hytrach na diodydd llawn siwgr ac maent yn trefnu bod disgyblion yn cerdded milltir pob dydd.  Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgorau yn gweithredu'n ddigon annibynnol ar arweiniad gan staff.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu cyffrous sy'n cymell ac yn ennyn brwdfrydedd disgyblion yn llwyddiannus. Mae rhediad bron pob gwers yn dda, ac mae'r gweithgareddau'n adeiladu'n bwrpasol ar ddysgu blaenorol. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o ymdrech, gwaith ac ymddygiad bob disgybl. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gynnwys rhaglenni astudio'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Mae'r staff yn fodelau rôl da ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eirfa goeth y disgyblion. Mae gan bob aelod o staff berthynas waith bositif gyda'r disgyblion. Maent yn holi'r disgyblion yn fedrus ac yn cynnig canmoliaeth adeiladol pan fydd yn briodol. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn teimlo'n hyderus yn eu gwaith ac yn cael cyfle i wneud cynnydd yn ystod bron pob gweithgaredd.

Mae athrawon yn rhoi adborth priodol ar lafar ac yn ysgrifenedig i ddisgyblion. Mae ymateb ysgrifenedig i waith disgyblion yn syml ac yn effeithiol. Mae'n rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ar gryfderau yn eu gwaith a beth sydd angen ei wella. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion asesu gwaith ei gilydd a gwaith eu cyfoedion. Mae athrawon yn asesu gwaith disgyblion yn gywir ac yn gwneud defnydd da o'u hasesiadau i osod targedau i ddisgyblion wella eu gwaith.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm. Maent yn darparu fframweithiau ysgrifennu yn rheolaidd i'r disgyblion i'w cynorthwyo i gynhyrchu gwaith ysgrifenedig safonol. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n annibynnol ar draws y cwricwlwm.

Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o egwyddorion ac ethos y cyfnod sylfaen. Maent yn gwneud defnydd da o'r ardal yn yr awyr agored er mwyn datblygu medrau disgyblion. Mae'r staff yn ysgogi disgyblion i ddarganfod a dysgu'n annibynnol o'r cychwyn ac yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu profiadau ysgogol a diddorol iddynt.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am iaith a diwylliant Cymru. Mae datblygiad effeithiol o'r Siarter Iaith yn sicrhau balchder disgyblion yn eu hiaith a'u gwlad. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft drwy ymweld â chestyll Cidweli a Charew, wrth astudio gwaith artistiaid Cymreig ac wrth groesawu enwogion o fyd y cyfryngau i'r ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn defnyddio system olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol i dargedu unigolion a grwpiau penodol. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth o'r system hon yn bwrpasol er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol neu eu hymestyn. Mae staff yn darparu rhaglenni ymyrraeth buddiol er mwyn sicrhau bod y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau gwrando a llafaredd wrth ddefnyddio rhaglen ymyrraeth benodol. Mae cynlluniau addysg unigol disgyblion yn cynnwys targedau pwrpasol a mewnbwn cyson o'r rhieni. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd. O ganlyniad, mae bron pob disgybl

yn gwneud cynnydd da. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol drwy arddangos eu gwaith gorau drwy'r ysgol. Mae hyn yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda asiantaethau amrywiol er mwyn cefnogi disgyblion ac i estyn cymorth ac arweiniad i staff. Enghraifft dda o hyn yw gwaith yr athrawes arbenigol yn cynnig strategaethau i wella safonau darllen disgyblion penodol. Mae gan yr ysgol berthynas weithiol dda gyda'r rhieni. Trwy'r sesiynau hyfforddi i reini ar agweddau fel darllen a thechnoleg gwybodaeth, maent yn medru cynorthwyo eu plant yn well a'u cefnogi gyda'u gwaith ysgol.

Mae'r ysgol yn hybu parch a goddefgarwch y disgyblion yn effeithiol drwy gynnig cyfleoedd iddynt fyfyrio ar agweddau ysbrydol a moesol. Mae'r ysgol yn hybu agweddau a gwerthoedd yn dda drwy annog cydweithio fel un cymuned. Maent yn dathlu amrywiaeth o wahanol ddathliadau yn ystod y flwyddyn, er enghraifft y flwyddyn newydd Tsieineaidd a Sul y Mamau.

Mae'r dimensiwn Cymreig a'r defnydd o'r ardal leol yn cael ei gynllunio a'i hyrwyddo'n effeithiol iawn yng nghwricwlwm a themâu'r ysgol. Mae'r athrawon yn trefnu ystod eang o ymweliadau a gweithgareddau er mwyn datblygu ymwybyddiaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft trwy ymweld â'r amgueddfa yng Nghaerfyrddin, ymweld â chapel lleol a chymryd rhan mewn gweithgareddau'r Urdd. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau creadigol trwy astudio gwaith chwedlau ac enwogion o Gymru fel Hedd Wyn, Merched Beca a Betsi Cadwalader. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinwyr wedi creu ethos o gydweithio ar draws tair ysgol y ffederasiwn yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r holl staff yn ymwybodol mai staff y ffederasiwn ydynt, ac nid ysgol benodol. Un o nodweddion blaengar y gyfundrefn hon yw bod staff yn gallu addysgu ar fyr rybudd yn unrhyw un o ysgolion y ffederasiwn heb i hyn amharu ar addysg y disgyblion. Mae hyn yn gryfder eithriadol. Mae strwythur staffio'r ffederasiwn yn galluogi'r athrawon a chynorthwywyr i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o holl waith y tair ysgol. Mae arweinwyr a staff y ffederasiwn yn rhannu a datblygu gweledigaeth strategol a nodau clir yn fwriadus gyda holl gymuned y ffederasiwn.

Mae gan y pennaeth a'r penaethiaid cynorthwyol fedrau arwain cryf. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel, ac maent yn cefnogi ac arwain eraill yn effeithiol i godi safonau a hybu lles disgyblion. Mae arweinyddiaeth gadarn ar draws y ffederasiwn wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio llwyddiannus ymysg staff y tair ysgol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio effeithiol wrth gyd-gynllunio, asesu a chymedroli fel un corff o staff. Defnyddir rhwydwaith digidol Hwb yn bwrpasol er mwyn rhannu dogfennau ar draws y ffederasiwn. Fodd bynnag, nid oes gan yr arweinwyr drosolwg ddigon clir o ba mor effeithiol mae'r cynlluniau cwricwlaidd yn cael eu gweithredu yn y tair ysgol.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgolion yn y ffederasiwn. Mae ganddynt gyfrifoldeb am agweddau penodol ar flaenoriaethau'r ysgolion. Trwy gydweithio ag arweinwyr yr ysgol, arsylwi ar wersi a chraffu ar lyfrau,

maent yn chwarae rôl weithredol ym mhrosesau hunanarfarnu'r ysgol. Defnyddiant y wybodaeth yn effeithiol wrth wneud penderfyniadau ac i osod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r llywodraethwyr wedi herio'r ysgol ynghylch y ddarpariaeth ac maent wedi cymryd penderfyniadau anodd er mwyn cynnal safonau. Fodd bynnag, nid ydynt wedi bod yn ddigon heriol wrth sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd y lefelau uwch tros gyfnod o amser. Mae'r corff llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Enghraifft o hyn yw'r modd maent wedi herio'r ysgol ynglŷn ag effaith y grant datblygu disgyblion ar bresenoldeb, prydlondeb a datblygu medrau bywyd disgyblion.

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol ac wedi eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth eang, fel craffu ar waith disgyblion, arsylwi gwersi a holi barn disgyblion a rhieni. Ar y cyfan, mae'r adroddiadau sy'n dilyn y monitro a chraffu ar lyfrau yn nodi'r cryfderau'n glir. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n adnabod yn gyson y camau nesaf i'w gwella. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun cynhwysfawr, gonest a chytbwys o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella. Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau gwella yn cael digon o effaith ar ddeilliannau disgyblion bob tro. Enghraifft o hyn yw'r ffaith bod gwella perfformiad disgyblion mwy abl a thalentog wedi ymddangos am nifer o flynyddoedd yn y cynllun datblygu.

Mae holl staff y ffederasiwn yn cydweithio'n effeithiol iawn â'i gilydd ac mae cyfleoedd gwerthfawr iddynt rannu profiadau ac arfer dda o fewn yr ysgol. Mae hyn wedi bod o gymorth i ysgafnhau baich gwaith athrawon a chyfoethogi profiadau disgyblion. Enghraifft benodol o hyn yw'r profiadau cyfoethog a chreadigol a gaiff y disgyblion yn y cyfnod sylfaen.

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau'n greadigol i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion. Maent yn cysylltu'r gwariant yn briodol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol ac yn monitro'r cyllid yn ofalus i sicrhau gwerth am arian. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o grantiau'n fwriadus gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i godi safonau a datblygu lles disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/05/2018